



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad Cyngor (EC) Rhif 21/2004 yng Nghymru a sefydlodd system ar gyfer adnabod a chofrestru defaid a geifr.

Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Dylai'r fformat "Member State" fod yn gyson â'r fformat a ddefnyddir mewn deddfwriaeth Ewropeaidd, sef defnyddio priflythrennau. Dylid defnyddio'r term Cymraeg cyfatebol, sef "Aelod-wladwriaeth", sef y term a ddefnyddir ym mhob deddfwriaeth arall y Cynulliad, ac nid Aelod Wlad". [Rheol Sefydlog 11.7 (v)]

Mae'r testun Cymraeg yn defnyddio "fferm eni" [farm of birth] yn gyson i gyfateb â "holding of birth" er y defnyddir "daliad" mewn manau eraill ar gyfer "holding". Mae hwn yn anghywir oherwydd diffinnir "holding" yn fwy eang yn Erthygl 2(b) o Reoliad y Gymuned fel "any establishment, any structure, or in the case of free-range farming, any environment, in which animals are held, reared or

handled on a permanent or temporary basis, except veterinary practices or clinics". Felly, dylid defnyddio "daliad geni" yn lle "fferm eni" drwy'r Gorchymyn cyfan. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae testun Saesneg erthygl 7(2) yn dechrau gyda'r geiriau "The provisions of Schedule 1 apply in addition to the requirements of –." Nid yw'n glir a yw hyn yn golygu bod darpariaethau Atodlen 1 yn gymwys yn ogystal â'r darpariaethau sy'n dilyn neu fod darpariaethau Atodlen 1 yn gymwys hefyd i'r darpariaethau sy'n dilyn. Awgryma'r testun Cymraeg, "Ar ben hyn, mae darpariaethau Atodlen 1 yn gymwys hefyd at ofynion –" mai'r dehongliad olaf sy'n gywir. Fodd bynnag, awgryma geiriad Erthygl 4.2 o Reoliad y Gymuned mai'r dehongliad cyntaf sy'n gywir, ac felly dylid diwygio'r testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn nhestun Cymraeg y diffiniad o "CPH" yn erthygl 2(1), defnyddir "ffurflenni" yn anghywir ar gyfer "forms". Yn erthyglau 14(4) a 17(3)(a) defnyddir "ffurf" yn gywir i gyfateb â "form" i gyflwyno Atodlenni 2 a 3, felly dylid defnyddio "ffurfiau" i gyfeirio atynt yn y diffiniad. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Ym mharagraff (ch) o'r diffiniad o "y Gorchmynion blaenorol" yn erthygl 2(1), caiff "Gorchymyn" ei ailadrodd ar ddiwedd y paragraff a dylid ei ddileu. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae'r diffiniad o "tir pori dros dro" yn amwys o ran nid yw'n cyfleu'r ystyr "on to" sydd wedi'i gynnwys yn y testun Saesneg, ond mae hefyd yn gallu cynnwys symud anifeiliaid o un lle i'r llall ar yr un tir. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn nhestun Saesneg erthygl 13(1), defnyddir y gair "otherwise" yn y testun Saesneg, ond ni ddefnyddir term cyfatebol yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae testun Saesneg erthygl 32(b) yn cyfeirio at "an animal born on or before 9th July 2005", tra bo'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "anifail a anwyd ar neu ar ôl 9 Gorffennaf 2005" [an animal born on or after 9th July 2005]. Mae cyd-destun, ac yn arbennig geiriad 32(a), yn awgrymu mai'r Saesneg sy'n gywir. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw'r rhain sy'n briodol i'w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

Sylwadau

Tynnwyd sylw'r cyfreithiwr a ddrafftiodd y Gorchymyn at y mân bwyntiau fformadu sy'n addas i'w cywiro wrth gyhoeddi.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

28 Mawrth 2006